

Rhaglen Gyflawn



**Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH**

Y CYNGOR – 28 MEDI, 2023

EITEM 6 - CWESTIYNAU

Eitem 6

EITEM 6 – CWESTIYNAU

(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams

“Yn dilyn cyhoeddiad fod Barclays am gau mwy o ganghennau gan gynnwys Pwllheli, a gaf i ofyn paham nad ydi'r Cyngor wedi ystyried bygwth newid banc gan mai Barclays ydi'r banc sydd yn cael ei ddefnyddio gan Y Cyngor? Petai'r Cyngor yn bygwth symud i fanc arall yn ogystal â gofyn i gynghorau sir eraill ddilyn esiampl, yna efallai y buasai'n bosib' dwyn perswad arnynt i beidio a chau canghennau.”

Ateb – Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Ioan Thomas

“Roedd y cyhoeddiad siomedig diweddar Banc Barclays fod cangen Pwllheli yn cau ar y 15ed o Dachwedd eleni, yn dilyn cau canghennau Caernarfon, Porthmadog a Dolgellau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cytundeb efo Barclays yn hytrach na efo canghennau penodol sydd gan y Cyngor. Yn sgil cau canghennau mae Barclays wedi negodi cytundeb efo'r Swyddfa Bost sydd yn caniatáu i gwsmeriaid Barclays i dalu i mewn ac hefyd codi arian parod yn y Swyddfeydd Post yng Ngwynedd, rydym ni fel Cyngor yn gwneud defnydd o hyn.

Gallwn gadarnhau fod cytundeb presennol y Cyngor efo Barclays sydd am gyfnod o 3 blynedd yn dod i ben ym Medi 2024. Yn unol a'r gofynion, felly mi fyddwn fel Cyngor yn edrych ar baratoi tendr newydd yn y misoedd nesaf. Bydd angen sicrhau proses briodol sydd yn cyfarch ein hamcanion wrth gaffael ond hefyd yn arwain at benodi banc.

Mae tueddiadau bancio byd-eang wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf gyda llai o sieciau, llai o arian parod a mwy o drafodion electroneg. Mae pob un o'r prif fanciau y byddai'r Cyngor yn gallu eu defnyddio wedi cau canghennau dros y blynyddoedd diwethaf.

Ers i Gyngor Gwynedd gael ei sefydlu nôl yn 1996, banc Barclays sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth i ni fynd allan i dendr.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae rhai banciau wedi tynnu allan o'r farchnad awdurdodau lleol yn gyfan-gwbl ac mae'r farchnad yn llawer mwy cyfyngedig nac i farchnad bancio personol.

O safbwynt y Cyngor a'i anghenion bancio nid yw y sefyllfa yn cynnig ei hyn i ddatrysiadau syml. Mae sicrhau gwasanaethau bancio yn allweddol i gynnal ein gwasanaethau ac mae hynny yn cael ei gloriannu yn erbyn ein gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau ehangach y cwmnïau mawr yma.”

(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Dewi Jones

“Pa gamau mae Cyngor Gwynedd am eu cymryd yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar dlodi yn Arfon gan y Sefydliad Bevan ym mis Awst?”

Ateb – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, Y Cynghorydd Nia Jeffreys

“Mae Sefydliad Bevan yn cyflwyno sawl argymhellid ar draws nifer a meysydd eang iawn ac ar hyn o bryd mae swyddogion ar draws adrannau'r Cyngor – o Cyllid, yr Economi , Addysg, Amgylchedd a Thai – yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r holl faterion a godwyd.

Ar yr olwg gyntaf mae'n galonogol fod rhai o'u hargymhellion yn bethau sydd eisoes ar waith, neu ar y gweill, gan Gyngor Gwynedd. Megis ffurflenni digidol ar gyfer ceisiadau am ein budd-daliadau; ein gwaith hyd yma ar fuddion cymdeithasol yn ein trefniadau caffael a tendro; y gwaith partneriaethol ar gynlluniau tlodi tanwydd; a'n trefniadau grymuso cymunedau drwy'r Fframwaith Adfywio.

Mae gennym hefyd brosiectau strategol, hirdymor, yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, o Gadw'r Budd yn Lleol i'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn ceisio mynd i'r afael ar faterion eraill wedi eu crybwyll yn yr argymhellion, gan gynnwys, cyflogau, prisiau tai, trafniadaeth fforddiadwy, a digonolrwydd gofal plant.

Fel mae'r adroddiad ei hun yn nodi, mae'r prif rymoedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i drigolion Arfon, a Gwynedd yn eistedd yn San Steffan. Rydym o hyd yn edrych allan am bob cyfle posibl i fynd i'r afael a thaclo'r her tlodi. Oherwydd hynny, ac i sicrhau ein bod ni'n gwneud y mwyaf o'r grymoedd a'r gallu sydd gennym fel cyngor, drwy bob adran, rydym wedi buddsoddi £350k tuag at y Rhaglen Cefnogi Pobl. Fel mae nifer ohonoch eisoes yn ymwybodol mae'r rhaglen honno wedi arwain ar sefydlu'r cynllun Croeso Cynnes; grantiau bwyd a bwydo cymunedol; digwyddiadau cymunedol a staff ar uchafu incwm, osgoi sgamiau, hawlio budd-daliadau; darparu cefnogaeth cynhwysiad digidol a mynediad i data am ddim; nwyddau mislif am ddim ac yn y blaen.

Fel yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb trawsadrannol am y maes Cefnogi Pobl, hoffwn ddiolch i Sefydliad Bevan am yr Adroddiad manwl hwn, ac am roi chwyddwydr ar y profiad o dlodi yn Arfon. Mae'n druenus fod teuluoedd ac unigolion yn yr unfed ganrif ar hugain dal i wynebu tlodi difrifol, ac mae hyn yr un mor wir am gymunedau yn Nwyfor a Meirionnydd.

Ar ôl i'r holl Adrannau a swyddogion gael cyfle i ymateb yn llawn i'r adroddiad, byddwn yn edrych ar fwydo argymhellion perthnasol i mewn i'n rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Drwy wneud hyn gallwn fod yn siŵr ein bod fel Cyngor yn gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn lleihau tlodi, a'i effaith, o fewn ein cymunedau.”

(3) Cwestiwn Y Cyngorydd Louise Hughes

"Mae pawb yn derbyn y cyfyngiad 20mya o flaen ysgolion ac mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth ddwys. Fodd bynnag, o ystyried y protestiadau cyhoeddus a'r niferoedd digynsail sydd wedi llofnodi'r ddeiseb ar-lein ar gyfer y Senedd, y dryswch ynghylch arwyddion ac ati a chan gofio am y bobl sy'n defnyddio eu cerbydau ar gyfer gwaith (gweithwyr gofal, y gwasanaethau brys, gyrwyr danfon, gweithwyr post, bysiau ac ati), a ydym fel Cyngor yn fodlon gyda'r ddeddfwriaeth newydd ac a fyddwn yn defnyddio'r disgrisiwn a roddir i Awdurdodau Lleol unigol i eithrio'r cyfyngiad 20mya mewn ardaloedd penodedig?"

Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cyngorydd Dafydd Meurig

“Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r cyfyngiad 20mya ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru a ddaeth i rym o 17eg Medi 2023.

Yn gyffredinol, mae ffyrdd cyfyngedig fel arfer mewn ardaloedd trefol ac yn cynnwys ffyrdd lle mae goleuadau stryd wedi'u gosod dim mwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd.

Mae tystiolaeth y Llywodraeth yn dangos bod pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus i gerdded a beicio pan fydd cyflymder cerbydau'n arafach, a'i bod yn fwy diogel i blant gerdded i'r ysgol; ac mae pobl hŷn, pobl anabl neu bobl ag anghenion ychwanegol hefyd yn gallu teithio'n fwy annibynnol.

Yn gyffredinol, mae'r egwyddor o leihau'r nifer o ddamweiniau ar y ffyrdd a cheisio annog mwy o gerdded a beicio i'w groesawu.

Rôl y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd lleol ydi gweithredu'r newid. Yn hynny o beth, mae'r gwaith o baratoi ar gyfer y newid wedi golygu gwaith traws-adrannol sylweddol gan staff y Cyngor wrth ystyried a chyflwyno'r newid ar y ffyrdd mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt.

Mae hynny wedi cynnwys ystyried addasrwydd y newid mewn lleoliadau, ymgynghori helaeth a gosod gorchmynion traffig. Mae'r mwyafrif helaeth o arwyddion wedi eu newid ar rwydwaith y Cyngor, gyda gwaith yn parhau.

Fel rhan o'r newid, mae terfynau cyflymder 30mya blaenorol wedi gostwng i 20mya yn y mwyafrif o safleoedd yng Ngwynedd. Ond fel rhan o'r broses fanwl o adolygu gan beirianwyr y Cyngor a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae 85 safle yn y sir wedi eu hadnabod lle mae cyfiawnhad dros beidio newid i fod yn 20mya ac sydd felly wedi aros yn 30mya.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru fel yr Awdurdod Priffyrdd perthnasol ydi penderfynu ar y mater yma ar gefnffyrdd yng Ngwynedd."

(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur

"I ba raddau y mae'r Awdurdod a'r Ysgolion yn monitro llwyddiant trochi fel y gwyddom faint o blant sydd wedi cyfnod o fod mewn Canolfan Drochi yn astudio dros hanner o'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg?"

Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown

"Mae'r gyfundrefn drochi yn monitro cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Cyn i'r dysgwyr gychwyn yn yr unedau trochi gwneir asesiad gwaelodlin mewn ymgynghoriad â staff y fam ysgol. Yna trwy gydol y cwrs mae staff y Gyfundrefn yn cynnal asesiadau ffurfiannol trwy gyfrwng pob math o weithgareddau gan arsylwi, cyfathrebu a rhoi adborth i ddygwyr er mwyn dod i adnabod eu cryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r strategaeth yma yn broses anffurfiol sy'n rhoi cyfle i staff y gyfundrefn gasglu a chywain gwybodaeth gan ddatblygu darlun cyfannol am bob dysgwyr yn unigol, er mwyn llywio'r camau dysgu nesaf. Mae'r broses hon yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd i wneud cynnydd. Mae'r wybodaeth o'i goladu, hefyd yn gwella a grymuso'r dysgu a'r addysgu.

Ar ddiwedd y cwrs mae staff y gyfundrefn yn cynnal asesiadau crynodol trwy ddefnyddio offer yn asesu'r Gyfundrefn drochi i asesu cynnydd y dysgwyr yn unigol ar y continwmm

dysgu yn erbyn meincnodau a disgrifiadau cynnydd Cwricwlwm i Gymru ym Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Cyflwynir adroddiad unigol i'r fam ysgol yn y cynradd a'r uwchradd ar gynnydd a chyrraedd pob plentyn ymhob canolfan drochi o fewn y gyfundrefn a threfnir bore agored ymhob lleoliad trochi ar gyfer rhieni a staff ysgolion i weld gwaith y dysgwyr a thrafod eu cynnydd yn ystod y cwrs. Yn ogystal adroddir i'r Prif weithredwr a minnau fel Aelod Cabinet Addysg ar lwyddiannau trochi yn dymhorol fel rhan o broses Herio Perfformiad yr Adran.

Ar ôl i'r plant drosglwyddo i'w mam ysgol cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw parhau i dracio cynnydd y dysgwyr ar hyd y continiwm fel rhan o'u trefniadau asesu. Mae'r gyfundrefn drochi yn olrhain cynnydd hwyrdyfoidiaid sydd wedi mynychu'r canolfannau trochi ac yn dilyn cwrs TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith. Mae'r Awdurdod yn casglu data parthed nifer o ddysgwyr CA4 sydd yn dilyn o leiaf 3 pwnc TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg a'r nifer o ddysgwyr sy'n dilyn 5 pwnc TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifoldeb ysgolion unigol yw olrhain llwybrau ieithyddol dysgwyr unigol gan gynnwys y nifer o blant yn cynnwys hwyrdyfoidiaid sydd yn dilyn o leiaf hanner eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn eu hadroddiad Mehefin 2023 nododd Estyn fod y ddarpariaeth yn yr ysgolion uwchradd i ddysgwyr sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn adlewyrchiad o bolisi a gweledigaeth yr Awdurdod i ddatblygu dysgwyr dwyieithog:

Mae ysgolion yn darparu llawer o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae llawer iawn o ddisgyblion yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Mae hyn yn adlewyrchu gweledigaeth a pholisi yr awdurdod i ddatblygu disgyblion sy'n gwbl ddwyieithog a hybu manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg."

(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

"Mae etholwyr yn fy ward wedi codi'r mater o dan feddiannu eiddo yn y sector gymdeithasol yn ddiweddar.

Mae nifer uchel o unigolion yn byw mewn tai cymdeithasol mewn pentrefi lle mae nifer fach iawn o dai cymdeithasol ar ôl.

Beth mae'r Cyngor a Chymdeithasau Tai yn ei wneud i roi cymorth i unigolion sydd yn tan feddiannu cartrefi yn y sector cymdeithasol i symud i gartrefi addas ar gyfer unigolyn?

Oes modd i'r Cyngor a Chymdeithasau Tai adnabod yr angen yng Ngwynedd?

O adnabod yr angen, oes modd sefydlu neu wella'r gwasanaeth presennol sydd ar gael ar gyfer trigolion sydd yn awyddus i symud i gartref newydd?

Gofynnir i'r Cyngor weithio gyda bob cymdeithasau Tai i adnabod pa gymorth ymarferol sydd ar gael i unigolyn sydd yn awyddus i symud tŷ ond sydd angen cymorth ymarferol gyda'r broses o fudo."

Ateb – Yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago

“Rydym yn ymwybodol y gall tan-feddiannu achosi rhwystrau i rai unigolion a theuluoedd, ac o ganlyniad mae trefniadau a phrosesau eisoes yn bodoli o fewn y Polisi Gosod Tai Gyffredin sy'n hwyluso trefniadau ar gyfer y Cymdeithasau Tai lle mae unigolion a theuluoedd yn dymuno symud oherwydd materion tan-feddiannu (cymalau 3.22 a 3.36 yn y [Polisi Gosod Tai Gyffredin](#)).

Rydym yn fodlon codi'r pwyntiau y mae'r Aelod yn eu nodi gyda'r Cymdeithasau Tai yn y Bwrdd Partneriaeth Tai, lle bydd cyfle i drafod trefniadau presennol ac i wneud rhagor o ymchwil i'r achosion o dan-feddiannu i adnabod cyfleoedd penodol i allu cynnig cymorth ychwanegol.”

(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell

“Ar ran y Grŵp Annibynnol, hoffwyrn gael gwybod beth oedd y broses a ddilynodd y Cyngor yma i ddod i'r penderfyniad i ohebu gyda trigolion Gwynedd ar Erthygl 4. Rydym ni fel aelodau yn teimlo ein bod wedi ein gadael yn y tywyllwch, yn enwedig pan fo'r ymgynghoriad wedi digwydd dros gyfnod yr haf, ac felly na fydd hyn yn gynrychiolaeth gywir.”

Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig

“Credir fod pob ymdrech wedi bod i sicrhau fod pob Aelod wedi cael cyfle i wybod am y trefniadau ymgysylltu cyhoeddus, a'r gwaith sydd yn gysylltiedig a Chyfarwyddyd Erthygl 4.

Yn dilyn diwygiadau i ddeddfwriaeth cynllunio yn Hydref 2022, mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y grym i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn ceisio rheoli'r defnydd o dai er dibenion gwyliau, boed hynny yn ddefnydd ail gartref neu yn llety gwyliau tymor byr. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 27 Hydref 2022, oedd yn rhoi trosolwg o'r diwygiadau mewn deddfwriaeth cynllunio, a sut oedd y Cyngor yn bwriadu ymateb i hynny er mwyn ceisio cael rheolaeth gwell o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Mae'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei osod yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Hawliau Datblygu Cyffredinol) 2022 (fel y diwygiwyd). Ymysg y gofynion statudol cysylltiedig mae'r angen i:-

- Gyflwyno'r rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4 i'r sawl a effeithir, oni ystyrir ei fod yn anymarferol i wneud hynny;
- Cynnal cyfnod ymgysylltu cyhoeddus am gyfnod sydd yn o leiaf 21 diwrnod.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Mawrth 2023, oedd yn cynnwys y sail tystiolaeth ar gyfer cyfiawnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, yn ogystal a throsolwg dangosol o'r camau nesaf. Penderfyniad y Pwyllgor Craffu Cymunedol oedd i argymhell i'r Cabinet, y dylid cymeradwyo cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gyfan.

Penderfynwyd ar y bwriad i osod rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ystod cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2023. Roedd yr adroddiad yma yn manylu ar yr holl ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys y bwriad i lythyru pob tŷ preswyl yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, er eu hysbysu o'r bwriad a'r cyfnod ymgysylltu cysylltiedig.

Wedi hynny, cynhaliwyd sesiwn codi ymwybyddiaeth ar gyfer aelodau'r Cyngor ar 29 Mehefin, 2023. Yn unol â manylion y gwahoddiad a anfonwyd, roedd y sesiwn yma yn gyfle i'r holl aelodau dderbyn gwybodaeth a holi cwestiynau ynglŷn â phwrpas ac amserlen gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, ynghyd â derbyn gwybodaeth am y cyfnod ymgysylltu. Yn ystod y sesiwn, fe fanylwyd ar y dulliau codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys manylion yn gysylltiedig â phryd byddai'r cyfnod ymgysylltu yn cael ei gynnal, a'r bwriad i fod yn llythyru pob tŷ preswyl yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

Er mwyn hwyluso unrhyw aelod oedd methu mynychu'r sesiwn byw, ac yn unol â'r arweiniad a oedd wedi ei gynnwys yn y gwahoddiad, fe osodwyd recordiad o'r sesiwn ar y Fewnrwyd Aelodau (Adran Hyfforddiant). Cafodd yr **holl** Aelodau neges drwy'r Bwletin Aelodau o'r 21/7/23 a 28/7/23 yn nodi bod recordiad ar gael o'r sesiwn yma, pe bai unrhyw un yn dymuno ei wyllo. Ymhellach, pwysleisir fod diweddariadau cyson yn gysylltiedig â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael eu gosod ar fewnrwyd yr Aelodau.

O ran y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus, mae'n bwysig sicrhau fod y broses yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol perthnasol. I'r perwyl yma, pwysleisir fod y gofyn statudol yn gofyn am gynnal cyfnod ymgysylltu sydd o leiaf 21 diwrnod. Er mwyn sicrhau fod yna gyfle teg yn cael ei roi i drigolion fod yn lleisio eu barn ar y mater, penderfynwyd cynnal y cyfnod ymgysylltu am gyfnod o 6 wythnos. Roedd y cyfnod yma yn cynnwys cyfnod yr haf a thu hwnt, yn y gobaith y byddai hynny'n sicrhau fod trigolion yr ardal ynghyd a rhai sydd yn ymweld yn ystod yr haf yn ymwybodol o'r bwriad a'r cyfnod ymgysylltu cysylltiedig. Pwysleisir felly fod y cyfnod ymgysylltu a gynhaliwyd wedi mynd ymhell y tu hwnt i'r gofyn statudol."

(7) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts

"I ba raddau y mae methiant i arolygu a gorfodi amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar gyfnod gweithredu meysydd carafanau teithiol a'r cyfnod y gellir cadw carafán ar lain wedi arwain at gynnydd mewn defnydd parhaol a di-dor?"

Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig

"Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau fel Awdurdod Cynllunio Lleol ac fel Awdurdod Trwyddedu, sydd yn gysylltiedig â datblygiadau a rheolaeth o safleoedd carafanau teithiol. O safbwynt cynllunio mae'r cyfrifoldebau yn ymwneud â materion defnydd tir, gyda'r cyfrifoldebau trwyddedu'n ymwneud â materion iechyd cyhoeddus a diogelwch.

Mae cydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Cynllunio a'r Gwasanaeth Gwarchod Cyhoedd pan gyflwynir ceisiadau cynllunio yn ymwneud â safleoedd carafanau, neu lle mae yna honiadau o dorri rheolau cynllunio neu reolau trwyddedu.

Yn anffodus nid oes digon o staff gan y Cyngor i gynnal arolygon rhagweithiol o bob un safle carafanau teithiol sydd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a gweddill y Sir. Mae'r gwaith archwilio mae'r Cyngor yn ei wneud felly'n adweithiol, sydd yn ddibynnol fel man cychwyn, ar dderbyn gwybodaeth a thystiolaeth gan drigolion lleol, aelodau a chynghorau tref a chymuned, am honiadau o dorri rheolau cynllunio neu drwyddedu ar safle penodol.

Pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad, cyfrifoldeb y perchennog tir yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cynlluniau perthnasol a'r holl amodau.

Mae'r cwestiwn yn rhagdybio fod amodau cynllunio wedi eu torri gyda chyfnod gweithredu safleoedd carafanau teithiol, oherwydd methiant i arolygu a gorfodi'r amodau hynny. Credir y buasai angen rhoi ystyriaeth i beth yn union yw'r dystiolaeth berthnasol i gefnogi'r rhagdybiaeth yma a hynny fesul achos, cyn y gellir dod i'r casgliad yna. Felly, mae'n anodd iawn cloriannu i ba raddau, mae trefn arolygu a gorfodi yn cyfrannu at fodolaeth parhaol di-dor o safleoedd carafanau teithiol.

Cydnabyddir fod heriau yn ymwneud â diffyg capasiti yn y maes gorfodaeth cynllunio ar hyn o bryd, a hynny oherwydd anawsterau i recriwtio staff newydd yn bennaf, ond mae cynlluniau mewn lle i geisio mynd i'r afael â hynny. Er hyn, mae archwiliadau gorfodaeth adweithiol yn cael eu cynnal, sydd yn seiliedig ar asesu os oes tystiolaeth gadarn fod yna achos o dorri rheolau cynllunio yn bodoli yn y lle cyntaf, ac os oes, ystyrir wedyn os oes sail cynllunio ac os yw yn y budd cyhoeddus i orfodi. Gyda safleoedd carafanau teithiol yn benodol, mae hel y dystiolaeth i gadarnhau fod rheolau cynllunio wedi eu torri, yn gallu bod anodd oherwydd natur symudol y defnydd.

Rhaid pwysleisio hefyd mai grym dewisol yw'r pwerau gorfodaeth, a bod y Gwasanaeth Cynllunio yn gweithredu'r grymoedd hyn drwy gyflwyno rhybuddion gorfodaeth, lle mae tystiolaeth gadarn yn cyfiawnhau hynny. Rhaid cofio hefyd fod yna hawl i apelio yn erbyn rhybuddion gorfodaeth.

Os oes gan y Cynghorydd bryderon am unrhyw safleoedd carafanau teithiol penodol, yna bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn hapus i drafod ymhellach."

(8) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai

"Mae plant di-Gymraeg sy'n cael eu 'trochi' yn y Canolfannau iaith yn treulio un diwrnod yr wythnos yn ôl yn eu hysgolion, er mwyn cadw cysylltiad gyda'r athrawon a phlant yna. Y tebygrwydd yw mai yn Saesneg y maent yn ei defnyddio i chwarae a chyfathrebu o hyd. A yw'r Adran Addysg yn asesu'r effaith mae hyn yn ei gael ar ddefnydd iaith gweddill y plant, ac ar ethos Gymraeg yr ysgolion?"

Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown

"Ers i'r Gyfundrefn Drochi ddod yn weithredol ym mis Ionawr 2023 mae'r hwyrdydfodiaid yn treulio 4 diwrnod yn yr unedau trochi iaith ac yna'n dychwelyd i'r fam ysgol am ddiwrnod bob wythnos. Mae sicrhau cyswllt parhaus gyda'r fam ysgol yn elfen allweddol o sicrhau llesiant dysgwyr sydd yn hwyrdydfodiaid yn ogystal â bod yn fodd iddynt drochi'n naturiol yng nghwmni eu cyfoedion a'u hathrawon.

Yn y canolfannau trochi rydym yn paratoi'r dysgwyr ar gyfer y dyddiau pontio yn ôl yn eu hysgol trwy ymarfer patrymau penodol a chwestiynau syml ac atebion posib y gallent eu defnyddio i ymarfer trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dosbarth ac yn ystod amser egwyl. O wythnos i wythnos rydym yn ehangu eu geirfa a'u patrymau. Yn ogystal rydym yn darparu cefnogaeth aelod o staff y gyfundrefn i'r hwyrdydfodiaid ar y dyddiau pontio i'w cymell a'u hannog i ddefnyddio'r patrymau iaith ac hefyd i'w cefnogi i oresgyn rhwystrau wrth gymhwyso eu medrau tu allan i furiau diogel yr unedau trochi.

Mae'r ymweliadau wythnosol yma yn gyfle i'r hwyrdydfodiaid integreiddio'n raddol yn ôl yn eu cymunedau ac yn gyfle i godi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid yr ysgolion o'r broses drochi

a'u cyfrifoldebau i fod yn rhan allweddol o'r broses. Cychwyn y daith drochi mae'r hwyrddyfodiaid wrth fynychu'r canolfannau trochi ac mae'n bwysig fod yr ysgol yn rhan annatod o'r daith honno o'r cychwyn cyntaf ac yn llawn ymwybodol o strwythur y cwrs o wythnos i wythnos er mwyn cynnal a chefnogi'r plentyn i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus ddwyieithog ar ôl dychwelyd yn llawn amser i'r ysgol.

Mae cyfrifoldeb ar bob ysgol i ddarparu'n briodol ar gyfer anghenion pob plentyn, gan gynnwys unrhyw anghenion o ran y Gymraeg, boed hynny yn ddefnydd ffurfiol neu anffurfiol o'r iaith, ac mae cefnogaeth gan staff y Gyfundrefn Drochi i'r ysgolion a'r dysgwyr sy'n hwyrddyfodiaid er sicrhau darpariaeth briodol ar eu cyfer. Yn ogystal mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn dilyn ac yn gweithredu egwyddorion y Siarter Iaith i hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Maent yn amrywio eu strategaethau yn llwyddiannus i ddelio hefo sefyllfaoedd ieithyddol amrywiol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Yn eu hadroddiad diweddar mae Estyn yn canmol ysgolion y sir yng nghyd-destun y defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg trwy gyfrwng gweithgareddau'r Siarter Iaith:

Anogir y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn briodol trwy weithgareddau'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cyfrannu at wella medrau Cymraeg a Chymreictod y disgyblion yn ogystal â chefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Bydd yr Adran Addysg yn gwerthuso effaith y Gyfundrefn Addysg Drochi ar ei newydd wedd gan ganolbwyntio ar strwythur y cwrs newydd ac effaith y diwrnodau pontio ar gynnydd ieithyddol y dysgwyr.